MENTERA

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Arweinydd Technegol Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol<br>(1 Gogledd Cymru ac 1 De Cymru) (0.8 FTE) |
| **Prosiect:** | Arwain DGC |
| **Rheolwr Llinell:** | Rheolwr Datblygu Milfeddygol |
| **Cyflog:** | £47,229 pro rata |

---

**Arwain DGC - cefndir**

Nod y prosiect hwn, sy'n cael ei ariannu drwy Lywodraeth Cymru, yw mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn anifeiliaid a'r amgylchedd. Mae'r prosiect yn unol â nodau ac amcanion Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd: Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd i Gymru 2019-2024, a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU.

Bydd y prosiect yn cael ei gynnal gan y partneriaid canlynol — Mentera, WLBP (Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru), Prifysgol Aberystwyth — Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth, Prifysgol Bryste, Iechyd Da a Milfeddygon Gogledd Cymru. Bydd y prosiect yn cael ei arwain a'i reoli gan Mentera.

Mae'r Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol wedi bod yn arwain ar ddefnydd gwrthficrobaidd cyfrifol mewn practisau milfeddygol yng Nghymru ers 2019 ac mae'n elfen graidd o brosiect Arwain DGC. Mae'r Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol wedi datblygu cyfres o ganllawiau triniaeth a phresgripsiynu ar y cyd ar gyfer prif glefydau anifeiliaid fferm, ynghyd â chod ymddygiad presgripsiynu gwirfoddol ar gyfer practisau milfeddygol anifeiliaid fferm. Mae cyfranogwyr rhwydwaith PPM hefyd yn gweithredu mentrau stiwardiaeth gwrthfiotig hunan-gyfeiriedig o fewn amgylcheddau eu practis eu hunain, gan gynrychioli'r Rhwydwaith o fewn eu harferion a gweithredu fel llais eu practis gyda'r Rhwydwaith.

**Nod y Rôl**

Bydd y rôl hon yn arwain ac yn rheoli'r Practisau Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol (PPM) ar draws gogledd/de Cymru. Bydd y rôl hon yn cynnwys teithio ar draws y rhanbarth, gan weithio'n agos gyda PPMau gogledd/de Cymru i'w cefnogi i ledaenu eu mentrau stiwardiaeth gwrthfiotigau o fewn eu practisau unigol. Bydd y rôl yn datblygu ac yn darparu hyfforddiant proffesiynol wyneb yn wyneb mewn stiwardiaeth gwrthficrobaidd ac Arwain DGC i dimau practisau, gan gefnogi practisau PPM i ymgysylltu â chod ymddygiad a chanllawiau clinigol Arwain a'u rhoi ar waith er mwyn gwella presgripsiynu gwrthfiotigau ledled Cymru. Bydd y rôl yn arwain ar gasglu

data defnydd gwrthfiotig o systemau rheoli practis at ddibenion meincnodi dienw, yn ogystal â chasglu data demograffig ar y practisau sydd wedi'u cofrestru. Bydd y rôl hefyd yn cefnogi'r grwpiau trafod rheolaidd, y rhaglen hyfforddi ehangach a datblygu adnoddau newydd a ddarperir ar gyfer PPMau sy'n cymryd rhan.

Fel rhan o dîm ehangach Arwain DGC, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyfrannu at bob agwedd ar y prosiect, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi PPMau a phractisau'r Rhwydwaith. Bydd y rôl hon yn cynnwys teithio ar draws gogledd/de Cymru, a disgwylir i ddeiliad y swydd reoli ei amser yn effeithiol ac yn annibynnol. Mae'r rôl yn cynnwys patrymau gweithio hyblyg.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Arwain a rheoli'r gwaith o ledaenu, ymgysylltu, dylanwadu a gweithredu Cod Ymddygiad Arwain a'r Canllawiau Clinigol ar draws practisau milfeddygol anifeiliaid fferm a chymysg gogledd/de Cymru.
- Adeiladu perthynas effeithiol y gellir ymddiried ynddi, ac ymweld yn rheolaidd â phractisau sy'n aelodau o'r Rhwydwaith PPM yng ngogledd/de Cymru (tua 23) i gefnogi gweithgareddau'r Rhwydwaith PPM.
- Datblygu deunyddiau hyfforddi wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gyfer staff practisau milfeddygol (milfeddygon, technegwyr milfeddygol a staff cymorth milfeddygol) ar fentrau Arwain DGC.
- Cyflwyno hyfforddiant wyneb yn wyneb i dimau practisau milfeddygol (e.e. yn ystod clybiau clinigol, nosweithiau DPP) i'w gyflwyno o fewn practisau sy'n aelodau o'r rhwydwaith.
- Darparu'r pwynt cyswllt a bod yn awdurdod i gefnogi PPMau gogledd/de Cymru i ymgorffori mentrau stiwardiaeth gwrthficrobaidd yn eu practisau.
- Casglu data ar ddefnydd gwrthficrobaidd blynyddol gwirfoddol dienw a demograffig o bractisau sy'n cymryd rhan.
- Cydgysylltu â phartneriaid prosiect i brosesu a dadansoddi'r data hwn, a'i adrodd yn ôl i'r practis.
- Coladu adborth gan bractisau PPM i lywio gwelliannau i weithgareddau'r Rhwydwaith PPM.
- Cefnogi cyflwyno grwpiau trafod chwarterol a'r digwyddiad PPM blynyddol.
- Cefnogi'r Rheolwr Datblygu Milfeddygol mewn meysydd blaenoriaeth eraill ar gyfer y prosiect sy'n cynnwys y Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol.
- Cydlynu gweithgareddau Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol Cymru, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau, cynnal cyfathrebu rheolaidd, hwyluso grwpiau trafod a thasgau gweinyddol eraill.
- Mynychu cyfarfodydd prosiect rheolaidd, digwyddiadau i'r cyhoedd (e.e. Sioe Frenhinol Cymru).
- Cynhyrchu adroddiadau ar weithgareddau Rhwydwaith PPM Gogledd/De Cymru.

- Gweithio gyda holl bartneriaid y prosiect a darparu cymorth yn ôl yr angen i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni'n effeithiol.
- Cadw at yr holl bolisïau perthnasol e.e. Bioddiogelwch, Caffael, Iechyd a Diogelwch ac ati
- Cynorthwyo Rheolwr y Contract i gyflawni'r contract yn effeithiol a nodi ffyrdd o wella'r gwasanaeth yn barhaus
- Cynllunio, gweithredu a gwerthuso prosiectau a threialon.
- Darparu ystadegau ac adroddiadau cywir i'r Rheolwr Prosiect a Llywodraeth Cymru.
- Gweithio'n agos gyda'r Swyddog Marchnata a darparu gwybodaeth yn ôl yr angen i sicrhau bod gwybodaeth o brosiectau yn cael ei lledaenu i'r diwydiant.
- Mynychu cyfarfodydd ar gais y Rheolwr Prosiect a/neu'r Cyfarwyddwr Rhaglenni Gwledig.

**Arall**

- Sicrhau bod safonau ansawdd, gwasanaeth cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch a bioddiogelwch yn cael eu bodloni.
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill yn ôl yr angen.
- Cynrychioli Mentera yn ôl yr angen.

**Sgiliau a Phrofiad**

**Hanfodol**

- Cymhwyster milfeddygol y gellir ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig
- Aelod Gweithredol o Goleg Brenhinol y Milfeddygon (MRCVS)
- Profiad clinigol o weithio mewn practis milfeddygol anifeiliaid fferm
- Cyfathrebwr cryf a deniadol
- Siaradwr cyhoeddus hyderus
- Profiad o gyflwyno i gynulleidfa broffesiynol (er enghraifft mewn cynadleddau, clybiau clinigol)
- Gallu lledaenu a chyfathrebu themâu, canfyddiadau ymchwil a chynnwys y rhaglen mewn modd ymarferol a chlir sy'n berthnasol i'r gynulleidfa
- Yn gallu cymell ei hun, ac yn gallu derbyn cyfrifoldeb am osod ac adolygu blaenoriaethau er mwyn cyflawni targedau gyda ffocws clir ar ansawdd
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol
- Dealltwriaeth o reoliadau sy'n ymwneud â phresgripsiynu, gwerthu a chofnodi gwrthficrobaidd
- Dealltwriaeth o feddalwedd rheoli practis milfeddygol
- Sgiliau TG uwch gan gynnwys Word, Excel, PowerPoint, E-bost, Cronfeydd Data a'r Rhyngrwyd
- Trwydded yrru lawn a defnydd o gar (bydd y rôl hon yn gofyn am deithio ar draws gogledd/de Cymru)

**Dymunol**

- Profiad blaenorol o weithio ar brosiect Arwain DGC
- Cymwysterau pellach mewn hyfforddiant / addysg
- Profiad blaenorol o weithio yn y sector milfeddygol yng Nghymru
- Dealltwriaeth uwch o bolisi a strategaethau stiwardiaeth gwrthficrobaidd
- Profiad o hwyluso a dulliau datblygu cyfranogol
- Profiad diweddar o weithio gyda phractisau milfeddygol, sefydliadau academaidd a/neu sefydliadau a chwmnïau technolegol
- Ymwybyddiaeth o ddatblygiad polisi amaethyddol ac iechyd anifeiliaid, yn ogystal â strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru.
- Siaradwr Cymraeg rhugl

## Gwybodaeth Ychwanegol

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â Gwen Rees ar 07538 405 048 neu gwen.rees@mentera.cymru.

**Mae gofynion y swydd hon yn golygu ei bod wedi ei chategoreiddio fel a ganlyn:**

- **Trwydded yrru a char i'w ddefnyddio at ddibenion busnes:**
  - Diangen
  - Dymunol
  - Hanfodol ✓
- **Gallu yn yr iaith Gymraeg:**
  - Gwrando/Siarad: Lefel 1
  - Darllen/Deall: Lefel 1
  - Ysgrifennu: Lefel 1

*Mae Mentera yn darparu hyfforddiant sgiliau iaith i bob aelod o staff sy'n awyddus i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.*

**Sut i ymgeisio**

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy gwblhau ffurflen gais a ffurflen cyfleoedd cyfartal a'u dychwelyd at swyddi@mentera.cymru erbyn 10 yb, dydd 24 Ebrill 2025

**Cyfweliadau**

Byddwn yn cynnal y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon yr wythnos yn cychwyn 6 Mai 2025. Os nad yw'r dyddiad yma'n gyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

## Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Mentera wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chreu amgylchedd cynhwysol yn y gweithle. Rydym o’r farn y gellir gwneud hyn drwy ddenu, datblygu a chadw ystod amrywiol o bobl o lawer o gefndiroedd gwahanol. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob rhan o’r gymuned, beth bynnag fo’u rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth draws, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu neu oedran. Er mwyn cefnogi ein cyflogeion i sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith a’u bywyd personol, am rhan fwyaf o’n swyddi byddwn yn ystyried cynigion i weithio’n hyblyg neu rannu’r swydd.